



Ein cyf/Our ref DB/00277/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Mai 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr yn rhoi cyfle i mi gynnig sylwadau ar y ddeiseb a dderbyniodd y Pwyllgor yn gofyn am “(b)rynu Sycharth, Cartref Owain Glyndŵr, er mwyn diogelu'r safle i genedlaethau'r dyfodol.”

Heb os, mae Owain Glyndŵr yn ffigwr pwysig a chwaraeodd ran allweddol yn hanes Cymru. Roedd ei ystadau yng ngogledd-ddwyrain Cymru, gyda'i brif breswylfeydd yn Sycharth a Glyndyfrdwy. Dinistriwyd y ddau eiddo yn fwrriadol gan luoedd Lloegr yn y 15^{fed} ganrif, ac ni ailfeddianwyd y naill na'r llall erioed. Pan oedd ei wrthryfel ar ei anterth, sefydlodd Glyndŵr ei lys yng Nghastell Harlech, wedi iddo ei gipio oddi ar y Saeson, a chynhaliodd seneddau yno ac ym Machynlleth.

Yn Sycharth, roedd preswylfa Glyndŵr wedi'i lleoli o fewn castell gwrthglawdd mwnt a beili hŷn. Mae'r cloddiau pridd yn dal yn drawiadol hyd heddiw, ond nid oes unrhyw dystiolaeth amlwg o'r adeiladau mewnol a ddisgrifiwyd mor huawdl gan y bardd Cymreig, Iolo Goch (1320-1398).

Mae Sycharth yn Heneb Gofrestredig, felly mae eisoes wedi'i ddiogelu'n gyfreithiol o dan Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (sydd i'w disodli cyn bo hir a throsglwyddo'r warchodaeth o dan ddeddfwriaeth cydgrynhoi newydd, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Mae'r ddeddfwriaeth yn diogelu olion archaeolegol y safle ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae Cadw yn monitro cyflwr yr heneb yn rheolaidd ac wedi gweithio'n rhagweithiol â pherchnogion y safle, Ystad Llangedwyn, i weithredu gwaith cadwraeth er mwyn diogelu uniondeb y gwrthglawdd trwy wella'r draenio ac atgyweirio erydiad a achosir gan hindreuliad naturiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Cadw hefyd yn parhau i weithio gyda'r perchnogion a'r ffermwr tenant i sicrhau bod y safle yn gwbl hygyrch i'r cyhoedd. Mae maes parcio bach ar y safle a mynediad trwy lwybr a chamfa, sydd wedi'u huwchraddio'n ddiweddar gyda chymorth grant ariannol gan Cadw. Gosodwyd y panel dehongli presennol gan Cadw yn 2018 ac mae'n cynnwys darlun arlunydd o'r safle fel y gallai fod wedi edrych yn nyddiau Owain Glyndŵr. Mae'r dehongliad yn pwysu ar ganlyniadau gwaith ymchwilio geoffisegol Cadw a wnaed i gefnogi cadwraeth y mwnt a dyma ein crebwyll diweddaraf o Sycharth.

Mae Sycharth dan berchnogaeth breifat. Penderfyniad y perchennog fyddai rhoi'r safle ar werth, ac nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw awydd i werthu'r eiddo. Ni chafwyd unrhyw gais chwaith gan perchennog Sycharth i'r heneb gael ei chymryd i Ofal Gwarcheidiaeth. Fodd bynnag, rwy'n fodlon bod gwarchodaeth gyfreithiol briodol ar waith i sicrhau bod y safle hanesyddol hwn yn cael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Drwy barhau i weithio ar y cyd â pherchnogion Sycharth, mae mynediad a chyfleoedd i ymwelwyr werthfawrogi rhinweddau arbennig y safle ar gael i'r cyhoedd, a bydd hynny'n parhau'n wir.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Dawn Bowden'. The signature is written in a cursive, flowing style with a large initial 'D'.

Dawn Bowden AS/MS

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism